Inspecting policing in the public interest

# Adolygiad o Adroddiadau Troseddau a Digwyddiadau'r Heddlu

**Heddlu Gwent**
**Ionawr 2012**

Mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) yn arolygiaeth annibynnol, yn arolygu plismona er lles y cyhoedd. Rydym yn monitro, arolygu ac adrodd ar effeithlonrwydd y gwasanaeth heddlu yn Lloegr a Chymru. Mae rhagor o wybodaeth a chopïau o adroddiadau arolygu ac adolygu ar gael ar ein gwefan, www.hmic.gov.uk.

## Y broses o gofnodi troseddau a digwyddiadau

Mae gan y broses gofnodi dri cham allweddol:

- **Cofnodi digwyddiad:** Mae aelod o'r cyhoedd yn galw am gymorth yr heddlu, neu mae heddwas yn gweld neu'n darganfod trosedd. Mae'r heddlu'n creu cofnod digwyddiad.
- **Cofnodi trosedd:** Os yw'r heddlu'n penderfynu bod trosedd wedi'i gyflawni, maent yn creu cofnod trosedd (fel arfer yn syth bin).
- **Ymchwilio i drosedd:** Mae ymchwiliadau'n cychwyn cyn gynted â phosibl, fel arfer ag ymholiadau cychwynnol sy'n chwilio am glemiau posibl ac yn casglu tystiolaeth ('ymchwiliad sylfaenol'). Yna mae 'ymchwiliad eilaidd' manylach yn cymryd lle er mwyn ystyried y dystiolaeth a gasglwyd yn y camau cychwynnol.

## Diben yr adolygiad

Mae'r Gweinidog Gwladol dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol, Nick Herbert, wedi gofyn i HMIC ymchwilio i ansawdd y data troseddau a digwyddiadau a gesglir gan luoedd yr heddlu ar draws Lloegr a Chymru.

## Pam mae mor bwysig i gael data troseddau a digwyddiadau o ansawdd uchel?

Mae data o ansawdd uchel yn golygu:

- Gall yr heddlu sefydlu maint, lleoliad a dioddefwyr troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB), ac felly gynllunio'u gwaith er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau i ddioddefwyr a'u cymunedau;
- Gall y cyhoedd, y Llywodraeth ac HMIC gael darlun cywir o drosedd ac ASB mewn ardal neilltuol, a barnu a yw perfformiad eu llu'n cynrychioli gwerth am arian.

Mae ymrymiad y Llywodraeth i atebolrwydd cyhoeddus a thryloywder yn ychwanegu'r angen am ddata cywir a chyson at hwn. Bydd hwn yn dod yn gynyddol o bwysig wrth i oruchwyliaeth o'r gwasanaeth heddlu symud i ffwrdd o Whitehall i gomisiynwyr heddlu a throsedd lleol (PCCau), a fydd yn dibynnu ar wybodaeth gywir, leol ynghylch y ffordd mae eu llu'n perfformio.

### Pwy sy'n gosod y safonau ar gyfer cofnodi troseddau a digwyddiadau?

Mae'r Swyddfa Gartref yn gosod y safonau ar gyfer cofnodi troseddau a digwyddiadau ill dau. Ategir y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cofnodi Troseddau (NCRS) gan Reolau Cyfrif y Swyddfa Gartref (HOCR). Mae'r rhain yn anelu at ddarparu safonau cyson ar gyfer pob llu ac ymagwedd tuag at gofnodi troseddau sy'n seiliedig ar anghenion y dioddefwr.

### Methodoleg yr adolygiad: nodyn ar gasglu data

Gwiriodd HMIC gywirdeb nifer fach o gofnodion troseddau a digwyddiadau'r llu. Defnyddiwyd hwn i amlygu unrhyw broblemau posibl y gellid archwilio iddynt â phwrpas yn ystod yr adolygiad.

Er nad oedd maint y sampl yn ddigon mawr i fod yn ystadegol arwyddocaol, mae'n rhoi rhyw arwydd ynghylch ansawdd y data a gasglwyd gan y llu, ac effeithlonrwydd ei systemau a'i brosesau. Felly cynhwysir rhai ganfyddiadau o'r casgliad o ddata isod.

## Canfyddiadau ar gyfer Heddlu Gwent

### A yw'r llu'n cofnodi troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gywir ac yn gyson?

Gwiriodd HMIC 120 o ddigwyddiadau a gofnodwyd gan Heddlu Gwent. Roedd un deg saith wedi'u cau'n anghywir heb godi trosedd sy'n awgrymu bod cofnodi troseddau yng Ngwent yn peri rhywfaint o bryder.

Daeth HMIC o hyd i dystiolaeth am gofnodi cywir o droseddau a digwyddiadau, ond nid oedd hwn yn wir ar draws y llu. Oherwydd nad oes gan y llu broses glir o ddigwyddiadau yn ymwneud â throseddau, ni chynhaliwyd adolygiadau cynnar i benderfynu a oedd adroddiad wedi'i ddosbarthu'n gywir bob tro. Roedd hwn yn peri i nifer o'r digwyddiadau a samplon ni ar gyfer yr adolygiad hwn gael eu cofnodi'n amhriodol.

### Beth yw ansawdd yr ymchwilio a'r gwasanaeth i ddioddefwyr?

Canfyddodd HMIC fod y llu'n cynnal ymchwiliadau da. Roedd tystiolaeth ei fod yn darparu safon uchel o ofal i ddioddefwyr ac roedd yn dda wrth eu cyfeirio'n awtomatig at gymorth i ddioddefwyr – ond nid oedd hwn yn wi yn gyson ar draws y llu.

Oherwydd bod gan Heddlu Gwent systemau gorchymyn a rheoli a rheoli cofnodion ar wahân, roedd ei allu i adnabod dioddefwyr ailadrodd ac hyglwyf (er mwyn iddynt dderbyn cymorth ychwanegol os oes ei angen) a gwybodaeth gysylltu rhwng y ddwy system wedi'i leihau'n sylweddol. Mae gan hwn y potensial i leihau ansawdd yr ymchwilio a'r gwasanaeth i ddioddefwyr. Hefyd roedd lefel a safon yr oruchwyliaeth o droseddau a digwyddiadau'n anghyson, ac mae angen buddsoddiad os yw'r llu'n mynd i gyflawni'r safon o wasanaeth sydd ei hangen.

## Sut mae’r llu’n sicrhau y cwrddir â safonau?

Roedd y ffordd mae’r llu’n rheoli’r troseddau amlaf yn cael ei hadolygu, yn cael ei arwain gan dîm y prif swyddogion. Fodd bynnag, ar adeg yr adolygiad, nid oedd strategaeth eglur ar gyfer gwella’r ansawdd o ddata troseddau a digwyddiadau; roedd hwn wedi cyfrannu at lefelau anghyson o oruchwyliaeth drwy gydol y llu. Roedd fforwm ansawdd data a ffurfiwyd o’r newydd yn dechrau mynd i’r afael â meysydd pryder, ond nid oedd hwn yn cael ei fonitro fel mater o drefn gan brif swyddogion. Roedd hwn yn lleihau gallu’r llu i wella perfformiad yn y maes hwn. Mae absenoldeb arweinyddiaeth a goruchwyliaeth clir a chyson gan uwch-reolwyr a chymorth gan yr awdurdod heddlu, mewn cysylltiad ag ansawdd data, yn creu risgau i’r llu.

Mae’r llu’n bwriadu cyflwyno system TG newydd yn yr Hydref 2012, a fydd yn gwella’n sylweddol allu’r llu i gofnodi troseddau a digwyddiadau’n gywir, yn ogystal â chynyddu lefelau o oruchwyliaeth er mwyn sicrhau y gwellir safonau.

## Casgliadau

Byddai’r ansawdd o ddata troseddau a digwyddiadaui’n cael ei wella’n arwyddocaol os oedd mwy o eglurder a ffocws gan brif swyddogion a’r awdurdod heddlu ynghylch pwysigrwydd y mater hwn. Er bod cynlluniau’n cael eu datblygu i wella rheoli’r troseddau amlaf a chofnodi troseddau a digwyddiadau yn y dyfodol, roedd gan ymagweddau anghyson tuag at ddosbarthu a goruchwylio’r potensial i roi dioddefwyr mewn perygl. Bydd buddsoddi mewn hyfforddiant i oruchwylwyr, ynghyd â rhaglen archwilio ac arolygu gref sy’n canolbwyntio ar feysydd sydd angen eu gwella fwyaf, yn gwella perfformiad yn y maes hwn yn sylweddol. Mae HMIC yn hyderus bod gan Heddlu Gwent ac Awdurdod Heddlu Gwent yr arweinyddiaeth, gallu ac arbenigedd i gyflawni’r newidiadau sydd eu hangen.

© HMIC 2012
ISBN: 978-1-84987-650-6
www.hmic.gov.uk